

## THELWALL, JOHN (1764 - 1834), diwygiwr, darlithydd a bardd

**Enw:** John Thelwall

**Dyddiad geni:** 1764

**Dyddiad marw:** 1834

**Priod:** Henrietta Cecil Thelwall (née Boyle)

**Priod:** Susan Thelwall (née Vellum)

**Rhiant:** Joseph Thelwall

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** diwygiwr, darlithydd a bardd

**Maes gweithgaredd:** Addysg; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

**Awdur:** David Jenkins

oedd fab i Joseph Thelwall (1731 - 1772), marsiandwr sidan yn Llundain, a hanoedd o gangen o deulu [Thelwall](#), Plas y Ward, a sefydlodd yn Crosby, Lancashire. Fe'i ganwyd yn Chandos Street, Covent Garden, 27 Gorffennaf 1764. Cyhoeddodd *Poems upon various subjects* (London, 1787), a bu'n olygydd y *Biographical and Imperial Magazine*. Daeth o dan gyfaredd y Chwyldro Ffrengig, ac ymunodd a'r 'Society of the Friends of the People.' Oherwydd ei ddaliadau radicalaidd eithafol fe'i gosodwyd i aros ei brawf, 1-5 Rhagfyr 1794, ar ôl ei garcharu yn Nhŷ Llundain er y mis Mai cynt, eithr fe'i dedfrydwyd yn ddieuog. Yn fuan wedi hyn cyhoeddodd ei *Poems written in close confinement in the Tower and Newgate* (London, 1795). Tua 1798 cymerodd fferm ger Llyswen, sir Frycheiniog, ond dychwelodd i Lundain ymhen dwy flynedd i ddarlithio yn bennaf ar rethreg, ac i ddysgu cynhyrchu'r llais. Yr oedd yn gyfeillgar â Southey, Hazlitt, Coleridge, a Lamb. Yn 1801 cyhoeddodd *Poems chiefly written in retirement ... with a prefatory memoir of the life of the author* (Hereford, 1901). Cynnwys y gyfrol hon nifer o gerddi yn ymwneud â Chymru. Ysgrifennodd Thelwall hefyd nifer o weithiau ar bynciau gwleidyddol a rethreg.

Bu farw yn Bath 17 Chwefror 1834. Priododd (1) Susan Vellum, (2) Cecil Boyle.

### Awdur

Dr David Jenkins, (1912 - 2002)

### Ffynonellau

*Poems Chiefly Written in Retirement. The Fairy of the Lake, a dramatic romance; Effusions of Relative and Social Feeling; and specimens of the Hope of Albion, or Edwin of Northumbria; an epic poem ... With a prefatory Memoir of the life of the author and notes and illustrations of Runic mythology* (1801), 1801

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [37726570](#)

Wikidata: [Q519393](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

